Yn ogystal â iechyd y cyhoedd, byddai’r mesur yn amddiffyn anifeiliaid y nos fel ystlumod, tylluanod ayb. Mae Jonathan Edwards AC wedi galw am fesur o’r fath, ac mae Rhodri Glyn Thomas AC wedi galw am fesur tebyg i hwn. Ni fyddai hyn yn effeithio ar Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) ac ni fyddai TAN 8 yn effeithio ar y mesur hwn, oherwydd nid yw TAN 8 yn delio gyda goblygiadau tyrbinau ar iechyd. Hefyd, dim ond gallu tyrbinau i gynhyrchu trydan fel gwerth sy’n angenrheidiol, ac nid pa mor effeithiol yw’r tyrbinau ar gynhyrchu trydan. Mae gan Gymru hen hanes o esgeuluso materion Iechyd a Diogelwch, ac mae hyn wedi arwain at gyfyngu ar fywydau pobl mewn cyfran helaeth o’r gymuned. Yn ystod eu datblygiad, ni ddylid chwarae â chlyw plant ifanc, ac nes i bwyntiau ymchwil sylweddol a gaiff eu derbyn gan y byd meddygol ynghylch llacio ar yr amseroedd a’r pellterau sydd wedi’u nodi yn y ddeiseb hon gael eu profi, dylid bod yn bwyllog yn hyn o beth.